YSGOL Y BERLLAN DEG

Polisi Gwrthfwlio

(I'w ddilyn ochr yn ochr â Pholisi Cydberthynas yr ysgol)

Pwrpas

Pwrpas y polisi hwn yw i sicrhau fod Ysgol y Berllan Deg yn cynnig amgylchedd hapus a diogel ble mae pawb yn cael eu trin gyda pharch ac na ddioddefir unrhyw ddull o fwlio.

Rhoddir cymorth llawn i unrhyw ddisgybl sy'n cael ei fwlio a rhoddir mesurau yn eu lle i ddelio gydag ymddygiad unrhyw ddisgybl sydd wedi bwlio disgybl arall. Dylai holl staff, disgyblion a rhieni fod yn ymwybodol o'r effaith negyddol y caiff bwlio ar unigolion, teuluoedd a'r ysgol yn gyffredinol, a dylid gweithio tuag at sicrhau bod disgyblion yn gallu byw a gweithio mewn amgylchedd heb ofn.

Mae bwlio yn annerbyniol yn yr ysgol hon ac ni fyddwn yn ei ddioddef. Cydnabydda'r ysgol bod yn rhaid ystyried unrhyw fwlio sy'n digwydd y tu allan i'r ysgol pan fo'n effeithio ar y disgyblion yn yr ysgol. Bydd yr ysgol yn gwneud popeth a all, o fewn rheswm, i ddileu unrhyw o achos fel hyn.

Mae'r polisi yn anelu at

- ddangos bod yr ysgol yn cymryd bwlio o ddifrif ac na fyddwn yn ei ddioddef;
- cymeryd camau i rwystro bob ffurf o fwlio yn yr ysgol ac oddi ar y safle;
- cefnogi pawb wrth adnabod ac amddiffyn y rhai fyddai o bosib yn cael eu bwlio;
- dangos i bawb bod diogelwch a hapusrwydd y disgyblion yn cael ei bwysleisio trwy ddelio'n bositif gyda bwlio;
- hybu amgylchedd lle **nad** yw'n drosedd i ddweud wrth rhywun am fwlio;
- hybu agweddau positif ymysg y disgyblion (gan gynnwys hyfforddiant pendantrwydd).

Diffiniad o fwlio

Mae sawl diffiniad o fwlio , ond rydym ni yn ei ystyried i fod yn weithred bwriadol niweidiol (gan gynnwys ymddygiad ymosodol) sy'n cael ei ailadrodd dros gyfnod o amser (tra'n cydnabod bod un digwyddiad yn gallu bod yn drawmatig i ddisgybl pheri gofid ei fod am ddigwydd eto).

Mae tri prif math o fwlio:

- corfforol – bwrw, cicio, poeri, mynd ag eiddo, niweidio eiddo ayyb
- geiriol – galw enwau, bod yn sarhaus, gwneud sylwadau cas ayyb
- anuniongyrchol – rhannu storiau cas am rhywun, gwahardd o grwpiau cymdeithasol, cael ei wneud yn destun stareon maleisus, gorfodi rhywun i wneud rhywbeth yn erbyn eu hewyllys (pwysau gan gyfoedion), anfon e-byst neu negeseuon testun casa rhoi negeseuon maleisus ar rwydweithiau cymdeithasol.

Camau i stopio bwlio

Fel ysgol byddwn:

- byddwn yn cymeryd unrhyw gyhuddiad o fwlio o ddifrif a sicrhau body plentyn sydd wedi cael ei fwlio yn cael ei gefnogi
- delio yn gyflym, yn gadarn ac yn deg gydag unrhyw gŵyn, gan gynnwys y rhieni pan yn briodol
- sicrhau bod y disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd adrodd unrhyw achos o fwlio yn syth a phwy i fynd ato
  e.e.athro/athrawes, Dirprwy neu Bennaeth
  sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd i drafod digwyddiadau ac effeithiau bwlio fel dosbarth neu fel unigolion e.e. *yn ystod amser cylch, Bocs Becso*
- annog y disgyblion i drafod sut i gyd-dynnu ag eraill ac i ffurfio agweddau positif tuag at ei gilydd
- annog y disgyblion i drin pawb â pharch
- sicrhau bod Cyngor yr Ysgol yn fodd o gyfathrebu cwynion/syniadau/consyrns staff yr ysgol
- adolygu'r polisi a'i lwyddiant
- yn trin bwlio yn fater difrifol a gwneud popeth posib i'w ddileu o'r ysgol
- dilyn rhaglen KIVA trwy'r ysgol

Gweithredu pan fo bwlio yn cael ei amau

Os ydym yn amau bod bwlio yn diwgydd siaradwn gyda'r dioddefwr honedig, y bwlio honedig ac unrhyw dystion. Bydd y camau nesaf yn dibynnu ar y math a difrifoldeb y bwlio, ond ym mhob achos byddwn yn cynnig help, cefnogaeth a chyngor fel bo'n briodol i'r dioddefwr a'r bwli:

Cymerwn bob achos o fwlio o ddifrif. Yn y lle cyntaf, bydd y person sy'n derbyn y wybodaeth yn mynd at yr arweinydd uned:-
Cyfnod Sylfaen = Mrs E. Browning
Cyfnod Allweddol 2 = Mrs S.
Ward

Os yw'r mater yn parhau yna bydd y Dirprwy neu'r Pennaeth yn ymchwilio ymhellach a datrys y mater trwy ddilyn y canllawiau isod. Os amheuir bod hiliaeth yn rhan o'r bwlio rhaid dweud wrth y Pennaeth (neu'r Dirprwy yn ei habsenoldeb) yn syth.

Bydd y dioddefwr yn derbyn cefnogaeth a chysur.

Yn dibynnu ar y math a difrifoldeb y bwlio ystyrir y camau hyn ar gyfer y bwli:

- rhybudd swyddogol i stopio'r bwlio

- colli amser chwarae
- rhoi gwybod i rieni/gwarchodwyr y bwli
- Defnyddio 'Llyfr Ymddygiad' am gyfnod
- Eu gwahardd o ardaloedd cymunedol yn ystod amseroedd chwarae a chinio
- Gallwn drefnu bod y rhieni yn dod â nhw ac yn mynd â nhw o dir yr ysgol
- Gwaharddiad am gyfnod penodedig
- Gwaharddiad parhaol

Beth Allech Chi Ddweud wrth Eich Plentyn Os Yw Ef / Hi yn Cael ei Fwlio/Bwlio?

- Bydd athrawon yn cymryd dy bryder o ddifrif ac yn delio gyda bwlis er mwyn rhoi terfyn ar y bwlio ac ni fydd hyn yn gwneud pethau yn waeth

- Cofia mai dy ddistawrwydd di yw arf mwyaf y bwli

- Dyweda wrthot dy hun nad wyt yn haeddu cael dy fwlio

- Bydda'n falch o pwy wyt ti a bydda yn ti dy hun

- Ceisia beidio dangos dy fod wedi ypsetio. Gall hyn fod yn anodd ond mae bwli yn mwynhau gweld plant eraill yn ofnus.
- Bydda yn gadarn – dyweda "Na!" a cherdda I ffwrdd yn hyderus.
- Dos yn syth at aelod o staff
- Yn gyffredinol mae'n well dweud wrth oedolion yr wyt yn ymddiried ynddyn nhw yn syth. Byddi yn sicr o gael cymorth.

Beth Ddylai Disgybl Ei Wneud Os Ydy Ef / Hi yn Gwybod Fod Rhywun yn Cael ei Fwlio?

- Cofia ddweud! Bydd edrych ar yr hyn sydd yn digwydd a gwneud dim amdano yn rhoi'r argraff eich bod yn ochri gyda'r bwli. Bydd hyn yn gwneud y dioddefwr i deimlo'n fwy anhapus a theimlo ei fod ar ben ei hun.
- Dweud wrth oedolyn yn syth. Mae gan athrawon ffordd o ddelio gyda bwli heb eich cael chi i drafferth.
- Peidiwch â, nag esgus bod, yn ffrindiau gyda'r bwli.

Fel rhiant

Os y teimlwch bod eich plentyn yn dioddef o fwlio rhaid hysbysu'r Pennaeth yn syth. Byddwn yn cymeryd eich cwyn o ddifrif ac yn gwneud camau dilynol priodol. Os yw eich cŵyn yn erbyn aelod o staff yna bydd yr ysgol yn dilyn y gweithdrefnau a'r polisiau priodol o ran disgyblu staff.

Edrychwch am ymddygiad anarferol yn eich plentyn. Er enghraifft, efallai na fyddant eisiau dod i'r ysgol yn sydyn iawn, yn teimlo'n sâl yn rheolaidd, neu ddim yn cwblhau eu gwaith i'w safon arferol.

Cymerwch ddiddordeb yn addysg eich plentyn. Gofynnwch iddynt am eu diwrnod, gyda phwy fuon nhw'n chwarae, beth wnaethon nhw amser cinio ayyb?

- Mae'n bwysig dweud wrth eich plentyn i beidio ag ymladd yn ôl. Gall wneud pethau'n waeth.
- Dywedwch wrth eich plentyn nad oes dim byd yn bod gyda nhw. Nid eu bai nhw yw e eu bod yn cael eu bwlio.
- Gwnewch yn siwr bod eich plentyn yn ymwybodol o bolisi'r ysgol ynglŷn â gwrthfwlio, ac i beidio â bod ofn gofyn am help.
- Ni ddylai rhieni, ar unrhyw achlysur, fynd at y bwli na'i rieni yn syth.

Monitro a Gwerthuso

Mae'r Pennaeth a'r corff llywodraethu yn gyfrifol am fonitro'r polisi hwn, ac am ei addasu pan fo angen er mwyn gwella ein gweithdrefnau ar gyfer atal bwlio yn Ysgol y Berllan Deg.

M. Phillips
Chwefror 2017

Always take an active role in your child's education. Enquire how their day has gone, who they have spent their time with, how lunch time was spent etc.?

- It is important that you advise your child not to fight back. It can make matters worse.
- Tell your child there is nothing wrong with him or her. It is not their fault that they are being bullied.
- Make sure your child is fully aware of the School policy concerning bullying, and that they will not be afraid to ask for help.
- A parent should on no account approach the bully or the bully's parents directly.

Monitro a Gwerthuso

The Headteacher and the governing body will be responsible for monitoring the success of the policy, and for amending the policy when necessary in order to improve our measures for preventing bullying at Ysgol Y Berllan Deg.

M. Phillips